Cystadleuaeth

Cymru ac Ewrop

Trefnir y gystadleuaeth hon yn flynyddol gan bwyllgor addysgol yn Hwngari i roi cyfle i ddisgyblion ysgol ledled Ewrop arddangos treftadaeth ddiwylliannol eu gwlad trwy gelfyddyd.

Eleni, y mae Cymdeithas Gwaith Maes am gynnal yr un gystadleuaeth o fewn Cymru, ac yna anfon y goreuon ymlaen i Hwngari i'w hystyried o fewn Ewrop.

Bydd yr enillwyr Cymreig yn derbyn gwobrau gan y Gymdeithas, heb sôn am gydnabyddiaeth ac efallai gwobr bellach gan bwyllgor y sefydliad Ewropeaidd.

Gofynion y gystadleuaeth:
1. Llun (unrhyw gyfrwng) yn dangos elfen neu agwedd ar dreftadaeth ddiwylliannol Cymru e.e.
adeilad (eglwys, castell, cartref)
nodwedd (stryd, diwydiant)
digwyddiad (eisteddfod, cymanfa ganu)

2. Enw, oedran a chyfeiriad ysgol pob ymgeisydd yn glir ar gefn pob llun ynghyd â llofnod athro yn tystio mai gwaith dilys y disgybl yw'r darn.

3. Lluniau i'w hanfon erbyn Mawrth 1af. 2002 at naill ai

Meira Shakespear (Golygydd)
Maen Gwyn, Trem-y-coed, Ty'nygroes, Conwy LL32 8SW.
neu
Duncan Brown (Is-gadeirydd)
Gwelfor, Ffordd Ceunant, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd.